



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canllawiau i hybiau ac ysgolion: darpariaeth ar gyfer plant gweithwyr hanfodol a phlant agored i niwed



@LIC_Addysg



Facebook/AddysgCymru

OGL

ISBN digidol 978 1 80038 482 8
© Hawlfraint y Goron Ebrill 2020
WG40555

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Cyd-destun	3
Trefnu darpariaeth	4
Oriau agor	4
Staffio	4
Cymhwysedd a phresenoldeb	7
Trafnidiaeth	10
Trefnu gweithgareddau i'r plant	10
Parhau i ddysgu o bell	11
Ymbellhau cymdeithasol a hylendid	12
Hylendid	12
Ymbellhau cymdeithasol	14
Goblygiadau ymarferol	15
Sicrhau lles y plant a'r staff	16
Iechyd a Lles	16
Arlwyo	17
Achosion brys, damweiniau a chymorth cyntaf	17
Diogelu	18
Atodiad A: pob sy'n wynebu mwy o risg ô salwch difrifol o ganlyniad i COVID-19 neu bobl y bernir eu bod yn 'agored iawn i niwed'	20
Pobl sy'n wynebu mwy o risg o salwch difrifol o ganlyniad i COVID-19	20
Pobl y bernir eu bod yn agored iawn i niwed	20
Atodiad B: Asesu risgiau	22

Cyflwyniad

Bwriedir i'r canllawiau hyn helpu i ddatblygu darpariaeth effeithiol ar gyfer plant gweithwyr hanfodol a phlant sy'n agored i niwed¹. Gellir trefnu'r ddarpariaeth hon mewn adeilad ysgol, hyb a bennir gan yr awdurdod lleol neu, ar gyfer plant cyn oedran ysgol, mewn lleoliad gofal plant. Datblygwyd y canllawiau hyn i gefnogi darpariaeth a ddatblygwyd gan ysgol, mewn cydweithrediad â chlwstwr lleol neu fel rhan o hyb ar y cyd â'r awdurdod lleol. Caiff canllawiau ar wahân ynglŷn â sut y gall awdurdodau lleol ariannu a hwyluso gofal mewn lleoliadau gofal plant cofrestredig eu cyhoeddi, a bydd angen i'r gofal hwnnw fod yn gyson â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant. Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu'r prif egwyddorion, sydd wedi'u llywio gan ymarfer presennol i gefnogi cysondeb cenedlaethol. Mae hefyd yn rhoi'r hyblygrwydd i awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau ddatblygu darpariaeth sy'n diwallu eu hanghenion penodol ac sy'n unol â'u gallu a'u hadnoddau. Mae'n cydnabod bod ardaloedd gwahanol wedi datblygu modelau gweithredu gwahanol er mwyn ymateb i'r her bresennol. Mae'n nodi canllawiau a chymorth i wneud y canlynol:

- Rhedeg darpariaeth
- Sicrhau mesurau priodol ar gyfer hylendid ac ymbellhau cymdeithasol
- Cefnogi lles y plant a'r staff

Bwriedir i'r canllawiau hyn helpu i sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddiogel i'r staff a'r plant ac yn cydymffurfio â mesurau ymbellhau cymdeithasol lle bynnag y bo modd, gan sicrhau eu lles ar yr un pryd. Mae awdurdodau lleol ac undebau llafur hefyd wedi datblygu canllawiau a chymorth a dylai staff ystyried hyn hefyd.

O dan reoliad 6A o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 (Rheoliadau "Coronafeirws")², mae'n rhaid i berson sy'n gyfrifol am weithle roi pob mesur rhesymol ar waith er mwyn sicrhau pellter o 2 fetr bob amser rhwng personau ar safle penodol. Mae hyn yn cynnwys ysgolion a hybiau. Datblygwyd y canllawiau hyn i helpu ysgolion a hybiau i ddatblygu mesurau rhesymol mewn cyddestun addysgol a'u rhoi ar waith. Rhoddir y canllawiau yn y ddogfen hon mewn perthynas â 'mesurau rhesymol' o dan reoliad 7A o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020³.

¹Ceir y diffiniad o weithwyr hanfodol a phlant sy'n agored i niwed isod.

² Daeth Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020/353 i rym am 4pm ar 26 Mawrth 2020. Yna, fe'u diwygiwyd gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020/399, a ddaeth i rym am 12.01 ar 7 Ebrill 2020. Fersiwn wedi'i chydgrynhai o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020/353 <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-04/the-health-protection-coronavirus-restrictions-wales-regulations-2020-as-amended.pdf>

³ Mae Rheoliad 7A o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 yn darparu bod yn rhaid i berson sy'n ddarostyngedig i ofyniad neu gyfyngiad yn—

(a) rheoliad 4(1) fel y mae'n gymwys i gantinau gweithleoedd,

(b) rheoliad 6(1),

(c) rheoliad 6A(1), neu

(d) rheoliad 7(1), (3), (4A) neu (5),

ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ynglŷn â mesurau rhesymol i'w rhoi ar waith er mwyn sicrhau pellter o 2 fetr bob amser rhwng personau.

Cyd-destun

Mae'r ymateb i COVID-19 wedi newid ein bywydau yn ddramatig.

Mae oedolion a phlant fel ei gilydd yn wynebu heriau gwirioneddol a dybryd i'w hiechyd a'u lles. Mae'r risg o gael ein heintio, profedigaethau posibl a'r cyfyngiadau ar adael y cartref yn rhoi straen ar ein hiechyd corfforol, ein hiechyd meddwl a'n cydberthnasau. Gall plant yn enwedig ei chael hi'n anodd ymdopi â diffyg trefn feunyddiol; tarfu ar eu dysgu ac ynysu oddi wrth ffrindiau. Yn yr un modd, bydd staff yn wynebu pwysau penodol i ymaddasu i'w rôl sy'n datblygu.

Ysgolion a lleoliadau gofal plant yw conglfeini cymunedau, sy'n cynnig llawer mwy nag addysg. Mae angen cymuned i fagu plentyn ac mae'r datganiad hwnnw mor berthnasol ag erioed.

Mae'r ddarpariaeth hon yn rhan hanfodol o'r ymdrech i ymateb i her enfawr COVID-19. Mae ein hymateb i'r argyfwng hwn yn dibynnu ar allu gweithwyr hanfodol i barhau i ymgymryd â'u rolau. Mae hefyd yn dibynnu ar sicrhau bod y ddarpariaeth hon yn lle diogel i blant sy'n agored i niwed neu blant na ellir eu gadael yn y cartref yn ddiogel.

Felly, mae eich rôl yn y ddarpariaeth hon yn hanfodol ac yn ganolog i sicrhau bod y gwasanaethau hollbwysig hyn yn parhau i gael eu darparu. Yn ystod y cyfnod hwn o angen cenedlaethol, mae ein hysgolion a'n cymuned gofal plant eisoes wedi camu i'r adwy ac wedi ateb yr her. Fel ymarferwyr, yn unigol ac ar y cyd, rydych yn amhrisiadwy yn ein hymdrechion fel cenedl i amddiffyn ein hiechyd.

Fel y dywedodd Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, "Rydych eisoes yn arwyr bob dydd. Ond nawr yn y cyfnod hwn o angen cenedlaethol – wrth gefnogi'r frwydr yn erbyn y coronafeirws – rydych chi'n arwyr cenedlaethol."

Trefnu darpariaeth

Nod y ddarpariaeth hon yw creu lle diogel sy'n ei gwneud yn bosibl i'r staff ofalu am blant sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol. Y neges allweddol yw, os nad oes modd gofalu am blentyn yn y cartref yn ddiogel, yna y bydd angen sicrhau bod darpariaeth ar gael.

Gellir trefnu'r ddarpariaeth mewn adeilad ysgol neu mewn lleoliad priodol arall a bennir gan yr awdurdod lleol.

Dylai ysgolion a hybiau ystyried y cyd-destun a'r cymunedau lleol a'r ffordd orau o gefnogi'r rhain. Bydd cydberthnasau sy'n bodoli eisoes a chydberthnasau newydd yn sail i'r broses o drefnu a gweithredu'r ddarpariaeth yn effeithiol, gan gynnwys cydweithio ag awdurdodau lleol ac ymgynghori ag undebau llafur.

Mae sicrhau bod y ddarpariaeth yn gweithredu'n unol â'r canllawiau ar ymbellhau cymdeithasol a hylendid yn hanfodol i'w llwyddiant.

Oriau agor

Disgwylir i'r ddarpariaeth adlewyrchu anghenion rhesymol gweithwyr hanfodol ac y bydd patrymau gwaith yn newid o bosibl dros amser. Gan weithio gyda'u hawdurdod lleol ac ysgolion, bydd angen i hybiau fesur a monitro'r galw. Dylai dealltwriaeth o anghenion staff iechyd rheng flaen, gofal cymdeithasol a gwasanaethau brys yn yr ardal leol fod yn ystyriaeth allweddol i asesu'r galw posibl ond dylid ystyried anghenion pob gweithiwr hanfodol. Efallai y bydd angen i hyn gynnwys penwythnosau a gwyliau banc.

Dylai awdurdodau lleol, ysgolion a hybiau fod yn ystyriol o'r ffaith y byddai llawer o weithwyr hanfodol fel arall yn defnyddio darpariaeth gofleidiol i ofalu am eu plant. O ystyried na fydd hyn yn bosibl, mae'n debygol iawn y bydd angen i'r ddarpariaeth ymestyn y tu hwnt i'r diwrnod ysgol arferol a chynnwys darpariaeth ar y penwythnos os oes angen.

Mae natur yr argyfwng iechyd cyhoeddus o ganlyniad i COVID-19 yn gyfnewidiol ac mae graddfa lawn a pharhad yr argyfwng yn ansicr o hyd. Bydd angen i'r ddarpariaeth fod yn hyblyg er mwyn ymateb i newidiadau yn y galw lleol. Yr oriau mwyaf cyffredin a gynigir mewn ardaloedd awdurdod lleol ar hyn o bryd yw 8 am i 6 pm. Wrth gwrs, dylai unrhyw oriau agor a gynigir barhau i fod yn hyblyg ac ymateb i alw lleol rhesymol.

Ni ddisgwylir i'r ddarpariaeth hon fel y'i strwythurir fod yn briodol ar gyfer gofal gyda'r hwyr na gofal dros nos. Os bydd galw am hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddiwallu'r angen hwn.

Staffio

Mae'n debygol y bydd y ddarpariaeth:

- **mewn adeiladau ysgol**, gan ddarparu ar gyfer dysgwyr yr ysgol ei hun a defnyddio ei staff ei hun neu
- **mewn hybiau**, a all fod wedi'u lleoli mewn adeilad ysgol ond a fydd yn darparu ar gyfer ystod o blant ac yn defnyddio staff o bob rhan o'r awdurdod lleol.

Gweithredu

Yr awdurdod lleol fydd yn gyfrifol, yn strategol ac yn gyffredinol, am ddarparu hybiau, sy'n cydnabod y cyfrifoldebau ehangach sydd ynghlwm wrth y rhain. Dylai hyn gynnwys pennu gofynion ar gyfer arweinwyr sy'n gyfrifol am weithredu a darparu'r hyb a'u helpu i sicrhau bod y cyfrifoldebau hyn yn cael eu cyflawni. Disgwylir y bydd awdurdodau lleol yn gweithio gyda nifer o arweinwyr ysgol fel partneriaid allweddol.

Dylai fod arweinyddiaeth glir o ddydd i ddydd ar gyfer y ddarpariaeth. Os mai ysgolion unigol sy'n gyfrifol, byddai hyn yn golygu arweinwyr yr ysgol. Mewn hybiau, bydd angen cadarnhau hyn drwy gytundeb â'r awdurdod lleol. Mae angen i drefniadau gydnabod lles y staff: ni ddylai arweinyddiaeth o ddydd i ddydd na'r gwaith o gynnal y ddarpariaeth gael eu darparu gan yr un unigolyn bob amser o dan oriau agor estynedig a dylai unrhyw rotâu adlewyrchu hyn.

Ni ragwelwn y bydd gan Gyrrff Llywodraethu ysgolion rôl sylweddol i'w chwarae yn y gwaith o lywodraethu trefniadau hybiau ar hyn o bryd, heblaw am roi cymorth i'r pennaeth reoli'r ysgol o ddydd i ddydd.

Dylid nodi disgwyliadau clir i aelodau'r staff ynghlwm â'u rôl a'u dyletswyddau. Mae eu lles a'u diogelwch yn bwysig ynddynt hwy eu hunain, yn ogystal â bod yn hanfodol i weithredu'r ddarpariaeth a gofalu am blant. Dylid rhoi sicrwydd iddynt a dylent ddeall sut y bydd y canllawiau yn helpu i'w cadw nhw a'u teuluoedd yn ddiogel. Bydd y niferoedd sy'n mynychu'r ddarpariaeth, yn ogystal â'r mesurau ymbellhau cymdeithasol a fydd ar waith, yn lleihau cymysgu cymdeithasol yn sylweddol a thrwy hynny leihau'r risg o drosglwyddo'r feirws.

Presenoldeb staff

Ni ddylid disgwyl i unrhyw aelod o staff sy'n dod o dan y categori gwarchod na'r rhai sy'n dod o dan y categorïau ymbellhau cymdeithasol llym weithio naill ai mewn ysgol neu mewn hyb. Nodir y diffiniadau yn Atodiad A. Os yw aelod o'r staff yn byw gyda rhywun sy'n agored i niwed, byddem yn disgwyl i gyflogwyr ystyried hyn. Wrth wneud hynny, dylent ystyried difrifoldeb yr achos unigol a'r lefelau presenoldeb a ddisgwylir. Dylai arweinwyr weithio gydag awdurdodau lleol i ateb ymholiadau ynghlwm â phresenoldeb staff.

Cefnogi darpariaeth

Dylai'r staff, pan fyddant yn yr ysgol neu'r hyb, gael eu rhoi mor gyson â phosibl â'r un plant er mwyn lleihau'r risg o heintio i'r eithaf. Fodd bynnag, efallai na fydd modd gwneud hyn os bydd niferoedd staff a phlant yn lleihau'n sylweddol. Dylai fod modd i'r staff gael seibiannau rheolaidd pan fyddant yn y lleoliad. Dylai rotâu staff, gan gynnwys arweinwyr sy'n mynychu'r ysgol neu'r hyb, hefyd sicrhau seibiannau lles, yn enwedig yn ystod gwyliau a dylid hefyd gofio y bydd angen i staff hunanynysu o bosibl. Bydd angen i'r broses o bennu adnoddau ar gyfer y ddarpariaeth fod yn deg

ac yn ystyriol o'r baich ar y staff o ran hyd sifftiau a nifer y diwrnodau y maent yn bresennol.

Ar gyfer plant iau a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol / anghenion addysgol arbennig (p'un a oes gan y plentyn ddatganiad anghenion addysg arbennig ai peidio), dylai'r ddarpariaeth geisio adlewyrchu pwysigrwydd cael staff sy'n gyfarwydd iddynt er mwyn eu helpu i deimlo'n ddiogel. Yr aelodau hyn o'r staff fydd yn deall anghenion y plant orau. Efallai na fydd hyn yn bosibl bob amser, os bydd gormod o faich ar aelodau penodol o'r staff.

Mae'n bwysig bod staff yn cael yr holl wybodaeth berthnasol am y plant y maent yn gyfrifol amdanynt. Bydd hyn yn gofyn am gydweithio rhwng yr hybiau, ysgolion y plant a'r awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod y staff sy'n gyfrifol yn ymwybodol o anghenion dysgu ychwanegol / anghenion addysgol perthnasol, problemau ymddygiadol ac anghenion a materion eraill ac yn deall sut y dylid cefnogi'r rhain. Efallai y bydd hyn yn gofyn am sgysiau ehangach â gwasanaethau eraill er mwyn sicrhau y gellir diwallu anghenion y plant ac nad ydynt yn achos risg i'r staff na phlant eraill.

Er y dylid rhoi'r flaenoriaeth uchaf i drefniadau diogelu effeithiol, os caiff data personol eu prosesu neu eu rhannu, bydd angen i awdurdodau lleol sicrhau cydymffurfiaeth y broses hon.

Efallai y bydd angen cymorth ychwanegol ar staff ysgolion, gan athrawon cyflenwi a'r awdurdod lleol a staff sydd wedi cael gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, megis swyddogion datblygu chwaraeon a gweithwyr ieuencid. Dylai awdurdodau lleol nodi'r staff sydd ar gael mewn gwasanaethau a gwirfoddolwyr lleol hysbys. Dylai fod gan y staff y sgiliau a'r cefndir priodol i weithio gyda phlant a dylent fod wedi cael gwiriadau diogelu.

Mae'n hanfodol bod y ddarpariaeth yn cael ei chynorthwyo gan dimau arlwyo a glanhau a gofawyr ysgol. Mae'r aelodau hyn o staff yn chwarae rôl hollbwysig o ran rhedeg ysgolion yn effeithiol ac yn ddiogel. Mae'n rhaid hefyd ymdrin â materion ymarferol megis pwy sy'n gyfrifol am agor a chau'r hyb. Gall y ddarpariaeth hefyd gael ei chynorthwyo gan staff sy'n gallu cefnogi lles, megis seicolegwyr addysg a seicolegwyr plant a chwyselwyr ysgol.

Dylai nifer y plant a'r staff sy'n bresennol ei gwneud yn bosibl i gadw at fesurau ymbellhau cymdeithasol. Dylai nifer y plant sy'n mynychu ysgol neu hyb bob amser olygu bod modd cadw'r plant a'r staff yn ddiogel; cadw at fesurau ymbellhau cymdeithasol a lleihau'r risg o drosglwyddo'r feirws i'r eithaf. Bydd yr union nifer yn dibynnu ar faint yr adeilad a'i ddyluniad a'r staff sydd ar gael. Yn dibynnu ar y ffactorau hyn, ac o ystyried y ffordd y mae awdurdodau lleol yn gweithredu ar hyn o bryd, byddem yn disgwyl y byddai'r nifer uchaf rhwng 10% ac 20% o nifer y plant sy'n defnyddio'r adeilad fel arfer.

Dylai'r plant a'r aelodau hyn o'r staff fod mewn gwahanol rannau o'r adeilad(au) yn hytrach na chael eu lleoli mewn un man. Dylai ysgolion neu hybiau weithio gydag awdurdodau lleol i gytuno ar gymarebau, gan ystyried y staff sydd ar gael a dyluniad yr adeilad. Er enghraifft, mae nifer o awdurdodau lleol wedi nodi cymarebau priodol

rhwng staff a phlant. Mae'r rhain yn cynnwys 2:8; 2:10 ac 1:5 ynghyd ag un aelod ychwanegol o staff.

Cymhwysedd a phresenoldeb

Mae angen i nifer y plant a'r staff ei gwneud yn bosibl i gadw at fesurau ymbellhau cymdeithasol yn unol â'r gofynion. Os yw'r niferoedd mewn darpariaeth yn achos pryder, dylai'r staff weithio gyda'u hawdurdod lleol i fynd i'r afael â hyn. Ni ddylai unrhyw blant sydd â symptomau COVID-19 fynychu'r ddarpariaeth a dylent aros gartref am 7 diwrnod. Ni ddylai unrhyw blant sy'n byw gyda rhywun sydd â symptomau COVID-19 fynychu'r ddarpariaeth a dylent aros gartref am 14 diwrnod o'r diwrnod yr aeth y person cyntaf yn sâl. Bydd hyn yn gofyn am ddeialog parhaus â rhieni/gofalwyr.

Os nad ydynt yn hunanynysu, ni ddylai plant sy'n gymwys i gael gofal ac na ellir gofalu amdanynt yn ddiogel yn y cartref gael eu gwrthod. Dylai awdurdodau lleol weithio gyda staff er mwyn sicrhau bod trefniadau wrth gefn ar waith rhag ofn na all y ddarpariaeth ateb unrhyw alw cynyddol.

Dylid darparu ar gyfer plant sy'n byw yn yr un cartref ar yr un safle, hyd y gellir, ond gall ystod oedran y ddarpariaeth effeithio ar hyn. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i rieni/gofalwyr gludo plant ac yn lleihau cymysgu cymdeithasol sy'n bwysig o ran lleihau trosglwyddo'r feirws.

Bydd angen i'r ddarpariaeth nodi proses glir o gofrestru a rheoli a chofnodi amseroedd cyrraedd a gadael plant, yn enwedig yn achos plant sy'n agored i niwed. Bydd angen ystyried hyn fel rhan o asesiad risg ysgol neu hyb. Ceir rhagor o gymorth ynglŷn â risgiau yn Atodiad B.

Plant gweithwyr hanfodol

Dylid darparu ar gyfer plant gweithwyr hanfodol na ellir gofalu amdanynt yn ddiogel yn y cartref. Efallai y bydd gweithwyr hanfodol yn gallu darparu ar gyfer eu plant, yn enwedig lle mae aelod o'r teulu yn aros gartref. Ni ddylid gadael plant yng ngofal pobl nad ydynt yn byw gyda nhw, na phobl y nodwyd eu bod yn y categori 'mewn perygl' ar gyfer COVID-19.

Os nad yw un o'r rhieni/gofalwyr yn weithiwr hanfodol, bydd disgwyl i'r unigolyn hwnnw ymgymryd â'r cyfrifoldeb am ofalu am y plentyn neu'r plant gartref. Fodd bynnag, nid yw'n ofyniad bod y ddau riant/gofalwr yn weithwyr hanfodol er mwyn i'r plant gael defnyddio'r ddarpariaeth. Mae angen bod yn hyblyg er mwyn cydnabod amgylchiadau gwahanol teuluoedd.

Dylai'r staff fod yn ystyriol o'r ffaith na fydd angen gofalu am blant gweithwyr hanfodol yn rheolaidd o bosibl ac y bydd presenoldeb pob plentyn yn wahanol yn unol â phatrymau sifft rhiant/gofalwr a'r trefniadau gofal eraill y gallant eu rhoi ar waith. Dylai'r staff weithio gyda rhieni/gofalwyr er mwyn cael dealltwriaeth glir o'r ddarpariaeth sydd ei hangen ar gyfer pob plentyn.

Dylai'r staff weithio gyda'u hawdurdod lleol i sicrhau bod cynlluniau ar waith i ymateb i amrywiadau mewn niferoedd, yn enwedig os bydd cyfradd trosglwyddo'r feirws a difrifoldeb achosion mewn ardal yn arwain at fwy o ofynion ar weithwyr hanfodol.

Mae 'gweithiwr hanfodol' yn rhywun y mae ei waith yn hanfodol i'r ymateb i COVID-19 neu sy'n gweithio yn un o'r sectorau hanfodol a restrir isod:

Iechyd a gofal cymdeithasol – mae hyn yn cynnwys ond nad yw'n gyfyngedig i'r canlynol: meddygon, nyrsys, bydwagedd, parafeddygon, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal, a staff iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen arall, gan gynnwys gwirfoddolwyr; y staff cymorth ac arbenigol sydd eu hangen i gynnal sector iechyd a gofal cymdeithasol y DU; y rhai sy'n gweithio fel rhan o gadwyn gyflenwi iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys cynhyrchwyr a dosbarthwyr meddyginiaethau a chyfarpar meddygol a diogelu personol.

Addysg a gofal plant – mae hyn yn cynnwys staff meithrin ac addysgu, gweithwyr cymdeithasol a'r gweithwyr proffesiynol ym maes addysg arbenigol y mae'n rhaid iddynt barhau i weithredu fel rhan o'r ymateb i COVID-19.

Gwasanaethau cyhoeddus allweddol – mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n hanfodol i redeg y system gyfiawnder, staff crefyddol, elusennau a gweithwyr sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen allweddol, y rhai sy'n gyfrifol am reoli'r ymadawedig, a newyddiadurwyr a darlledwyr sy'n darparu gwasanaeth cyhoeddus.

Llywodraeth leol a chenedlaethol – mae hyn yn cynnwys y swyddi gweinyddol hynny sy'n hanfodol i ymateb i COVID-19 yn effeithiol, neu'r rhai sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.

Bwyd a nwyddau angenrheidiol eraill – mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â chynhyrchu, prosesu, dosbarthu, gwerthu a darparu bwyd yn ogystal â'r rhai sy'n hanfodol i ddarparu nwyddau allweddol eraill (er enghraifft nwyddau hylendid a meddyginiaethau milfeddygol).

Diogelwch cyhoeddus a diogelwch gwladol – mae hyn yn cynnwys swyddogion a staff yr heddlu, gweithwyr sifil y Weinyddiaeth Amddiffyn, contractwyr ac aelodau'r lluoedd arfog (y rhai sy'n hanfodol ar gyfer allbynnau amddiffyn a diogelwch gwladol allweddol ac yn hanfodol i'r ymateb i bandemig COVID-19), cyflogeion y gwasanaeth tân ac achub (gan gynnwys staff cymorth), staff yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol, y rhai sy'n gyfrifol am ddiogelwch y ffin, staff y gwasanaeth carchardai a phrawf a rolau diogelwch gwladol eraill, gan gynnwys y rhai dramor.

Trafnidiaeth – mae hyn yn cynnwys y rhai a fydd yn sicrhau bod dulliau trafndiaeth drwy'r awyr, dros ddŵr, ar y ffyrdd a theithwyr rheilffyrdd a chludo nwyddau yn parhau yn ystod yr ymateb i COVID-19, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio ar systemau trafndiaeth y mae cadwyni cyflenwi yn mynd drwyddynt.

Cyfleustodau, cyfathrebu a gwasanaethau ariannol – mae hyn yn cynnwys y staff sy'n angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau ariannol hanfodol (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i weithwyr mewn banciau, cymdeithasau adeiladu a seilwaith y farchnad ariannol), y sectorau olew, nwy, trydan a dŵr (gan gynnwys carthffosiaeth), y sector technoleg gwybodaeth a seilwaith data a chyflenwadau diwydiant sylfaenol a sicrhau eu bod yn parhau yn ystod yr ymateb i COVID-19, yn ogystal â staff allweddol sy'n gweithio yn y gweithrediadau niwclear sifil, cemegol,

telathrebu (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r sectorau gweithrediadau'r rhwydwaith, peirianeg yn y maes, staff canolfannau galwadau, TG a seilwaith data, gwasanaethau hanfodol 999 ac 111), gwasanaethau post a dosbarthu, darparwyr taliadau a gwaredu gwastraff.

Caiff y rhai a gynhwysir yn y diffiniad o weithwyr hanfodol eu hadolygu'n barhaus.

Plant sy'n agored i niwed

Dylai pob plentyn y gellir gofalu amdano yn y cartref yn ddiogel aros gartref. Dim ond lle nad oes unrhyw ddewis diogel amgen y dylid darparu ar gyfer plentyn mewn ysgol neu leoliad arall.

At ddiben darparu mewn ysgolion a/neu leoliadau plant cofrestredig, mae plant sy'n agored i niwed yn cynnwys y rhai sydd â gweithiwr cymdeithasol a'r rhai sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Dylai awdurdodau lleol roi blaenoriaeth i'r plant sydd fwyaf agored i niwed yn ôl plant y mae angen y ddarpariaeth arnynt fwyaf. At ddiben darparu, mae plant sydd â gweithiwr cymdeithasol yn cynnwys plant sydd â chynlluniau gofal a chymorth neu gynlluniau cymorth, plant ar y gofrestr amddiffyn plant a phlant sy'n derbyn gofal.

Bydd awdurdodau lleol yn gweithio gydag ysgolion a hybiau er mwyn helpu i adnabod y plant y mae angen y cymorth arnynt fwyaf ar yr adeg hon. Dylai'r ddarpariaeth a'r staff fod wedi'u paratoi i gefnogi anghenion pob plentyn sy'n mynychu.

Plant hŷn

Dylai plant y mae'n ddiogel iddynt aros gartref wneud hynny. Ni fydd angen i blant hŷn gweithwyr hanfodol ddefnyddio'r ddarpariaeth os gellir eu gadael yn y cartref heb oruchwyliaeth. Ni ddylid gadael plant o unrhyw oedran heb oruchwyliaeth yn y cartref os yw'n eu rhoi mewn perygl neu os yw'n debygol o achosi dioddefaint diangen neu niwed i'w hiechyd.

Rhieni sy'n penderfynu a ellir gadael plentyn yn ddiogel yn y cartref.

Nid yw'r gyfraith yn rhoi oedran ar gyfer gadael plentyn ar ei ben ei hun, ond mae'n drosedd gadael plentyn ar ei ben ei hun os yw'n ei roi mewn perygl. Bydd angen i rieni arfer doethineb o ran pa mor aeddfed yw eu plentyn cyn penderfynu ei adael ar ei ben ei hun.

Dywed y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC):

- anaml y mae plant o dan 12 oed yn ddigon aeddfed i'w gadael ar eu pennau eu hunain am gyfnod hir.
- ni ddylid gadael plant o dan 16 oed ar eu pennau eu hunain dros nos.
- ni ddylid byth adael babanod, plant bach na phlant ifanc iawn ar eu pennau eu hunain.

Gall rhieni gael eu herlyn os ydynt yn gadael plentyn heb ei oruchwyllo mewn modd sy'n debygol o achosi dioddefaint diangen neu niwed i'w iechyd.

Trafnidiaeth

Dylai'r ddarpariaeth fod yn hygyrch i blant, gyda disgwyliad y caiff plant eu cludo i'r lleoliadau ac oddi yno yn annibynnol. Fodd bynnag, efallai na fydd gan deuluoedd plant sy'n agored i niwed na phlant gweithwyr hanfodol gludiant amgen ac efallai y bydd diffyg cludiant ysgol yn atal plant rhag mynychu ac yn atal gweithwyr hanfodol rhag gweithio. Efallai y bydd gweithwyr hanfodol hefyd yn cymudo dipyn o bellter i'w gweithle.

Bydd awdurdodau lleol yn gweithio gydag ysgolion a hybiau i ystyried pa ddarpariaeth a all fod yn rhesymol drwy fynd i'r afael â rhwystrau i fynediad, ond bydd hyn yn eithriad ac yn ôl disgrisiwn yr ysgol a/neu'r awdurdod lleol. Os darperir cludiant, dylai hyn sicrhau y cydymffurfir â mesurau diogelwch ac ymbellhau cymdeithasol bob amser. Dylai systemau clir fod ar waith i sicrhau bod plant yn defnyddio'r dull cludo cywir ac yn cael eu cludo adref yn ddiogel.

Trefnu gweithgareddau i'r plant

Bydd y staff eisoes yn datblygu gweithgareddau o ansawdd uchel i'r plant. Bwriedir i'r ddarpariaeth sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn ymgymryd â gweithgareddau ac ni fwriedir i'r gweithgareddau a ddatblygir gan y staff gymryd lle gwersi ysgol. Wrth barhau i ddatblygu darpariaeth, dylai hyn gynnwys gweithgareddau sy'n:

- Hybu mwynhad plant drwy chwarae
- Cynnig trefn feunyddiol a chydbwysedd (gan gynnwys dysgu, chwarae ac ymlacio a chyfyngu ar ddefnyddio sgrin)
- Rhoi cyfleoedd sy'n briodol i ddatblygiad y plentyn ac sy'n cefnogi ei les corfforol, meddyliol ac emosiynol
- Rhoi cyfle i blant grybwyll a chodi problemau lles meddyliol
- Defnyddio'r manau awyr agored cymaint â phosibl, ond cadw at y canllawiau ar ymbellhau cymdeithasol isod
- Cefnogi profiadau dysgu eang eraill, megis canu, drama neu gelf
- Meithrin gwell dealltwriaeth o ymbellhau cymdeithasol a'i ymarfer
- Helpu plant i ddeall ac ymarfer mesurau hylendid yn unol â'r canllawiau, e.e. golchi dwylo

Dylai'r staff fod yn rhydd i ddefnyddio adnoddau ar-lein i ddatblygu gweithgareddau a, lle bo modd, dylai cyfarpar fod ar gael iddynt.

Wrth ddatblygu gweithgareddau sy'n helpu plant i ddeall mesurau hylendid ac ymbellhau cymdeithasol, efallai y bydd y staff am ystyried y gweithgareddau a amlinellwyd yng [nghanllawiau](#) Sefydliad Iechyd y Byd.

Dylai'r staff ystyried goblygiadau unrhyw weithgarwch a drefnir o ran adnoddau, ac wrth drafod yr adnoddau hyn dylent gadw at ganllawiau iechyd y cyhoedd. Byddai adnoddau yn cynnwys teganau, papur, offer ysgrifennu, paentiau ac ati, ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r rhain. Hyd y gellir, dylai gwrthrychau gael eu trafod gan un plentyn a'u glanhau'n drylwyr cyn ac ar ôl eu defnyddio. Dylid osgoi trosglwyddo

gwrthrychau rhwng yr ysgol neu'r hyb a mannau eraill oni bai bod hynny'n angenrheidiol.

Parhau i ddysgu o bell

Dylid rhoi cyfleoedd i blant ar gyfer dysgu ac addysgu o bell gan eu hysgol arferol. Dylai ysgolion a hybiau sicrhau bod plant, fel dysgwyr, yn gallu cael mynediad at ddysgu o'r fath ac ymgymryd ag ef yn ystod eu hamser yn y ddarpariaeth, fel y byddent pe baent gartref.

Ymbellhau cymdeithasol a hylendid

Bydd angen i ddarpariaeth effeithiol ymgorffori mesurau ymbellhau cymdeithasol a hylendid ym mhob rhan o'i gweithrediadau. Mae'n rhaid i'r staff ystyried y canllawiau yn yr adran hon ar ymbellhau cymdeithasol sy'n rhoi arweiniad mewn ysgolion a hybiau ar eu dyletswydd i sicrhau ymbellhau cymdeithasol o dan Reoliadau Coronafeirws. Bydd yn rhaid i'r ddarpariaeth hefyd ystyried y canllawiau isod a chanllawiau cenedlaethol eraill ar hylendid yn ofalus.

Cafodd y canllawiau yn yr adran hon eu datblygu nid yn unig i helpu ysgolion a hybiau i gadw'r staff a'r plant yn ddiogel ac yn iach, ond hefyd eu teuluoedd: mae mesurau diogelwch yn helpu i sicrhau bod y gadwyn heintio yn cael ei thorri.

Bwriedir i'r canllawiau hyn sicrhau bod y ddarpariaeth mor ddiogel â phosibl i'r staff a'r plant. Bydd mesurau ymbellhau cymdeithasol, hylendid a hunanynysu i'r rhai sydd â symptomau neu sy'n byw gyda rhywun sydd â symptomau yn lleihau'r risg o drosglwyddo'r feirws cymaint â phosibl. Er y bydd y staff yn teimlo'n bryderus o bosibl ynglŷn â'r risgiau, mae'n bwysig cofio y gellir gwneud darpariaeth yn llawer mwy diogel drwy gadw at y canllawiau.

Hylendid

Dylai'r staff hefyd gyfeirio at [ganllawiau](#) lechyd Cyhoeddus Cymru ar atal a rheoli heintiau.

Presenoldeb

Ni ddylid caniatáu i neb (gan gynnwys y staff, plant, rhieni/gofalwyr neu ymwelwyr) fynychu os oes ganddynt unrhyw un o symptomau COVID-19. Dylid rheoli mynedfeydd ac allanfeydd y safle a dylid cyfyngu ar ymwelwyr i'r rhai hanfodol yn unig. Mae symptomau mwyaf cyffredin y coronafeirws (COVID-19) fel a ganlyn:

- peswch newydd parhaus sydd wedi dechrau'n ddiweddar a/neu
- tymheredd uchel

Dylai unrhyw un sy'n cael y symptomau aros gartref am 7 diwrnod. Dylai unrhyw un sy'n byw gyda rhywun sydd â symptomau ond sy'n parhau'n iach aros gartref am 14 diwrnod o'r diwrnod yr aeth y person cyntaf yn sâl.

Y cyngor ar hyn o bryd yw nad oes angen mesur tymheredd plant. Bydd rhieni/gofalwyr y plentyn yn gallu mesur eu tymheredd. Sut bynnag, ni fydd mesur tymheredd yn nodi pob achos o COVID-19 a gall y dull o fesur tymheredd olygu mwy o risg o drosglwyddo'r feirws i aelodau o'r staff. Byddwn yn parhau i adolygu'r cyngor hwn. Wrth gwrs, dylai'r staff fod yn wylidwrus o newidiadau yn nymheredd plant ac arwyddion twymyn. Ni ddylid anfon unrhyw blentyn sydd â symptomau i'r ddarpariaeth o gwbl ac mae'n hollbwysig bod rhieni'n cael eu hannog i ymddwyn yn unol â hynny.

Plant neu staff sydd â symptomau

Dylai fod gweithdrefnau clir i'r staff os oes unrhyw blentyn neu aelod o'r staff yn dechrau datblygu symptomau ar safleoedd. Mae angen i'r rhain gael eu deall yn

llawn gan y staff a rhieni. Dylai plant/staff sydd â symptomau gael eu cadw ar wahân nes bod modd eu casglu a mynd â nhw adref. Yn ddelfrydol, dylai hyn fod mewn ystafell ar wahân, wedi'i goruchwyllo o bellter o 2 fetr. Os bydd angen cyngor clinigol, dylent (neu aelod o'r staff neu eu rhieni/gofalwr) fynd ar-lein i [111 Cymru](#) (neu ffonio 111 os nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngwrwd). Mewn argyfwng, dylai'r staff ffonio 999 os oes rhywun yn ddifrifol sâl neu wedi cael anaf neu os yw ei fywyd yn y fantol. Ni ddylid mynd i feddygfa, fferyllfa, canolfan gofal brys nac ysbyty. Dylai unrhyw un sydd â symptomau ddefnyddio cyfleusterau toiled ar wahân os oes modd. Dylai'r rhain gael eu diheintio cyn bod unrhyw un arall yn eu defnyddio. Mae'n bwysig gwahanu neu ynysu unrhyw un heb greu stigma.

Dylai arwynebau y mae plant neu aelodau o'r staff sydd â symptomau wedi dod i gysylltiad â nhw gael eu glanhau'n ofalus. Ceir rhagor o ganllawiau gan Lywodraeth y DU ar lanhau ardal pan fydd rhywun â symptomau COVID-19 [yma](#).

Hylendid personol

Dylai'r staff sicrhau bod pob aelod o'r staff a phob plentyn yn golchi eu dwylo'n rheolaidd. Dylid eu golchi â sebon a dŵr am o leiaf 20 eiliad. Dylai'r staff hefyd sicrhau bod y staff a'r plant yn deall technegau golchi dwylo effeithiol. Dylid golchi dwylo wrth gyrraedd a gadael yr ysgol neu'r hyb; cyn ac ar ôl trafod bwyd; cyn ac ar ôl trafod gwrthrychau neu gyfarpar y mae eraill wedi'u defnyddio o bosibl; lle y bu unrhyw gysylltiad corfforol ac ar ôl i bobl chwythu eu trwyn, tisian neu besychu. Mae'n well golchi dwylo na defnyddio hylif diheintio dwylo. Efallai y bydd angen gosod offer hylif diheintio dwylo sy'n cynnwys o leiaf 60% o alcohol os nad yw'n ymarferol golchi dwylo, er enghraifft wrth y mynedfeydd i'r ysgol neu'r hyb. Wrth osod offer diheintio dwylo, dylid ystyried diogelwch plant.

Dylai plant a staff besychu i mewn i'w penelin. Dylai'r staff a'r plant gael eu hannog, hyd y gellir, i beidio â chyffwrdd â'u hwynebau, yn enwedig wrth ddefnyddio hances bapur neu benelin i besychu.

Gall aelodau o'r staff drafod y cyflenwad o gynhyrchion hylendid a glanhau â'u hawdurdod lleol. Bydd angen i hyn ystyried yr hyn sydd ar gael a blaenoriaethu offer. Dylid lleihau achosion o drafod gwrthrychau rhwng unigolion, gan gynnwys staff, rhieni/gofalwyr a phlant, i'r eithaf. Dylid osgoi sefyllfa lle mae gwrthrychau yn cael trafod gan sawl unigolyn heb eu glanhau.

Mae [canllawiau](#) yn nodi y dylid gwisgo menig a ffedog wrth lanhau manau lle mae rhywun yr amheuir bod ganddo COVID-19 wedi bod. Os nad oes modd cadw pellter cymdeithasol a bod angen cysylltiad uniongyrchol, dylid cynnal asesiad risg gan ystyried a oes angen defnyddio menig a ffedog. Y tu hwnt i hyn, mae'n bwysig nodi bod [Llywodraeth Cymru](#) ar hyn o bryd yn argymhell defnydd helaethach o gyfarpar diogelu personol ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn golygu bod dilyn y mesurau hylendid ac ymbellhau cymdeithasol ar hyn o bryd yn dal i fod yn briodol i staff mewn ysgolion a hybiau. Caiff hyn ei fonitro a'i ddiweddarau yn ôl yr angen.

Glanhau

Bydd angen glanhau'r adeilad yn rheolaidd ac o leiaf unwaith y dydd. Dylid glanhau arwynebau caled â dŵr sebonog twym ac yna eu diheintio â'r cynhyrchion glanhau a ddefnyddir fel arfer. Dylid rhoi sylw arbennig i lanhau ardaloedd ac arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml, a ddylai gael eu glanhau'n amlach nag arfer, gan gynnwys ystafelloedd ymolchi, rheiliau, byrddau, teganau, cyfarpar a dolenni drysau.

Dylid rhoi hancesi papur mewn bin sbwriel ar wahân a'u gwaredu'n ddiogel. Dylid cael gwared ar sbwriel bob dydd.

Os amheuir bod unrhyw wastraff wedi dod i gysylltiad â rhywun sydd â symptomau COVID-19, dylid ei roi mewn bag gwastraff, ei ddal mewn man diogel am 72 awr ac yna'i waredu fel pob math arall o wastraff.

Dylai'r staff glanhau ddeall y gofynion o ran glanhau yn llawn a dylai hybiau ac ysgolion weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn cael hyfforddiant priodol a bod cynhyrchion ac offer ar gael mewn modd amserol.

Adeilad

Dylid cynyddu'r llif aer ac awyru lle y bo modd, gan gynnwys agor ffenestri a defnyddio system tymheru aer lle y bo modd.

Trafod offer ac eiddo

Ni ddylai eiddo gael ei drosglwyddo rhwng yr ysgol neu'r hyb a'r cartref oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol. Dylid lleihau'r defnydd o offer a theganau y mae angen cyffwrdd â nhw i'r eithaf neu dylid eu defnyddio mewn ffordd wahanol fel y gellir osgoi sefyllfa lle mae nifer o bobl yn eu trafod heb eu glanhau. Lle y caiff eitem ei defnyddio, dylid ei glanhau bob tro ar ôl i rywun ei thrafod.

Ymbellhau cymdeithasol

Cludiant a chyrraedd

Os bydd angen cludiant, dylai hyn sicrhau bod plant yn cadw'n briodol at fesurau ymbellhau cymdeithasol.

Dylai'r staff ystyried sut y gellir sicrhau ymbellhau cymdeithasol pan fydd plant yn cyrraedd ac yn cael eu casglu. Ni ddylai rhieni ymgynnull yn agos y tu allan. Efallai y bydd angen i'r plant gyrraedd a chael eu rhyddhau fesul cam er mwyn osgoi hyn.

Defnyddio gofod

Dylai ystafelloedd fod yn ddigon mawr i sicrhau ymbellhau cymdeithasol yn unol â'r canllawiau. Dylai'r niferoedd ym mhob ystafell adlewyrchu'r staff sydd ar gael a dylid eu cadw mor isel â phosibl.

Dylai'r staff a'r plant aros 2 fetr oddi wrth ei gilydd. Dylai trefniadau eistedd, gemau a gweithgareddau gael eu hailfodelu er mwyn sicrhau hyn a lleihau unrhyw gysylltiad corfforol i'r eithaf.

Er mwyn helpu i sicrhau ymbellhau cymdeithasol, dylai'r staff ystyried cynnal cymaint o weithgareddau yn yr awyr agored ag sy'n ymarferol. Mae'n hyn yn golygu y bydd angen dillad sy'n briodol ar gyfer y tywydd ar y plant.

Lle y bo modd, dylid osgoi sefyllfa lle mae gwahanol grwpiau yn rhannu ystafelloedd. Dylai'r staff a'r plant ddefnyddio'r un ystafell ar gyfer gweithgareddau ac, os bernir bod hyn yn ymarferol, ar gyfer prydau bwyd hefyd neu gerllaw. Mae hyn yn osgoi'r risg o drosglwyddo'r feirws o ystafell i ystafell ac yn lleihau nifer y bobl y mae pob unigolyn yn dod i gysylltiad â nhw i'r eithaf. Os oes rhaid bwyta prydau bwyd mewn ystafell wahanol a rennir, dylid trefnu i'r plant ddod ar wahanol adegau er mwyn sicrhau nad oes gormod yno ar yr un pryd.

Goblygiadau ymarferol

Bydd sicrhau mesurau hylendid ac ymbellhau cymdeithasol llym ymhlith plant yn her, yn enwedig i blant ifanc a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol / anghenion addysgol arbennig. Wrth gwrs, mae hyn yn cydnabod, o dan rai amgylchiadau, y bydd achosion lle na fyddai'n rhesymol nac yn briodol cadw at fesurau ymbellhau cymdeithasol o'r fath. Bydd angen i'r staff hyrwyddo ac arfer ymddygiadau yn unol â'r canllawiau, gan gynnwys golchi eu dwylo'n rheolaidd, creu gofod ac osgoi cysylltiad corfforol diangen.

Dylai'r staff hefyd fod yn greadigol o ran helpu'r plant i ddeall a dilyn yr egwyddorion hyn.

Gall y staff ddefnyddio adnoddau **e-Bug** a argymhellir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Iechyd a Gofal er mwyn helpu plant o bob oedran i ddeall hylendid.

Sicrhau lles y plant a'r staff

Bydd y staff yn ymwybodol iawn o anghenion y plant, cyd-aelodau o staff a'u teuluoedd, a fydd o dan bwysau emosiynol, ariannol a seicolegol ychwanegol ar yr adeg hon. Ni ellir gorbwysleisio hyn. Mae plant yn fwy tebygol o fod yn bryderus ac mae'r newid yn eu trefn feunyddiol a goblygiadau'r cyfyngiadau symud yn debygol o effeithio ar eu hiechyd a'u lles. Dros amser, bydd y plant a'r staff yn fwy tebygol o wynebu achosion o salwch difrifol a phrofedigaeth.

Bydd awdurdodau lleol yn gweithio gyda'r staff i ystyried y ffordd orau o gefnogi anghenion lles y plant sy'n dod i'r amlwg ar yr adeg hon.

Er diogelwch a lles y staff, y plant a'u teuluoedd, mae'n hollbwysig hefyd bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd sy'n gyson â'r cyngor gwyddonol arbenigol a roddir.

Iechyd a Lles

Wrth ystyried iechyd a lles, dylid cydnabod y bydd angen cefnogi'r staff a'r plant o dan yr amgylchiadau presennol. Dylai gwaith cynllunio, amserlennu a'r amgylchedd ffisegol oll gael eu hystyried. Dylai'r ffocws ar iechyd a lles gynnwys cyfle i wneud y canlynol:

- cefnogi pob agwedd ar iechyd a lles corfforol y staff a'r plant
- cefnogi iechyd a lles meddyliol ac emosiynol y staff a'r plant
- meithrin cydberthnasau cadarn ac iach sy'n allweddol i'n hiechyd a'n lles.

Dylai'r staff fod yn ymwybodol iawn bod yr ysgol neu'r hyb yn amgylchedd anghyfarwydd o bosibl i rai plant. Dylid rhoi blaenoriaeth i'w helpu i deimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel ac i'w hiechyd a'u lles.

Dylai'r staff annog y plant i drafod eu cwestiynau a'u pryderon. Dylai'r plant gydnabod ei bod yn beth arferol eu bod yn adweithio'n wahanol a dylid eu hannog i siarad â'r staff os oes ganddynt unrhyw gwestiynau neu bryderon, yn enwedig o ran COVID-19. Dylai gwybodaeth gael ei rhoi mewn ffordd onest sy'n briodol ar gyfer oedran y plant.

Dylai'r ysgol neu'r hyb fod yn effro ac adnabod plant ac aelodau o'r staff yr ymddengys eu bod yn teimlo'n ofidus a'u cefnogi. Dylid rhoi gofal bugeiliol a chymorth mewn profedigaeth ar waith.

Efallai y bydd y staff am ystyried rhoi amser i fyfyrion er mwyn cefnogi iechyd a lles y plant.

Dylai'r staff fod yn ystyriol o'r amgylchedd ffisegol a'r ffordd y gellir rheoli hyn er mwyn cefnogi iechyd a lles y plant a'r staff, er enghraifft, cadw ffenestri ar agor i adael i awyr iach ddod i mewn a sicrhau golau naturiol.

O ran y staff, wrth ddatblygu'r ddarpariaeth, bydd angen ystyried yr effaith ar eu hiechyd a'u lles a'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Dylai fod llwybrau clir ar

gyfer codi pryderon gyda rheolwyr ac arweinwyr. Dylid rhoi systemau cymorth clir ar waith, er enghraifft mynediad at Raglenni Cymorth i Gyflogeion ac at y [Bartneriaeth Cymorth Addysg](#). Dylai amserlenni a rotâu gefnogi lles y staff a dylent gael seibiannau lles yn rheolaidd. Dylai hyn hefyd gynnwys trefniadau wrth gefn fel y gall aelodau o'r staff gamu'n ôl o'r ddarpariaeth os bydd angen gwneud hynny er mwyn diogelu eu lles.

Gweithgarwch Corfforol

Mae'n bwysig bod y plant a'r staff yn cael cyfle i ymgymryd â gweithgarwch corfforol bob dydd, gan gadw at fesurau ymbellhau cymdeithasol. Mae'r gweithgarwch corfforol hwn yn arbennig o bwysig lle y bydd gweithgarwch plant wedi'i gyfyngu oherwydd y cyfyngiadau symud.

Arlwyo

Dylai'r ddarpariaeth ystyried a ddylid darparu brecwast, cinio a swper o bosibl yn unol â hyd y gofal. Efallai y bydd angen darparu byrbrydau hefyd. Os oes modd, dylai bwyd gael ei weini yn yr ystafelloedd lle y gofelir am y plant. Mae hyn yn lleihau'r risg o drosglwyddo'r feirws. Dylid glanhau'r ardal yn unol â'r canllawiau ar ôl bwyta. Dylai'r staff sicrhau bod pawb yn cadw at fesurau ymbellhau cymdeithasol yn ystod prydau bwyd a dylai'r plant eistedd 2 fetr oddi wrth ei gilydd.

Efallai y bydd yr ysgol neu'r hyb am ystyried darparu prydau bwyd i'r staff hefyd er mwyn lleihau nifer y gwrthrychau sy'n cael eu trosglwyddo i'r adeilad ac oddi yno.

Dylai awdurdodau lleol ac arweinwyr weithio gyda darparwyr a chyflenwyr bwyd er mwyn sicrhau eu bod yn cadw at y mesurau hylendid llymaf posibl, gan gynnwys wrth baratoi, bwyta a gwaredu bwyd. Ni ddylid rhannu bwyd. Dylai unrhyw fyrbrydau gael eu gosod ar wahân er mwyn osgoi hyn. Gellid trefnu i'r plant gael amser cinio ac egwylion ar adegau gwahanol er mwyn helpu i gadw at fesurau ymbellhau cymdeithasol.

Lle mae brecwast a/neu ginio yn cael ei ddarparu, dylai'r ddarpariaeth, os oes modd, ddarparu'r prydau bwyd hynny yn seiliedig ar Reoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Safonau a Gofynion Maeth) (Cymru) 2013. Dylai'r prydau bwyd hynny gael eu cynllunio i leihau mynediad at fwyd a diod sy'n cynnwys llawer o fraster, siwgr a halen, ac i gynyddu faint o ffrwythau a llysiau a physgod olewog sy'n cael eu bwyta. Dylai lluniaeth arall a ddarperir yn ystod y dydd hefyd fod yn seiliedig **ar ofynion bwyd a diod** y *Rheoliadau* hynny.

Os yw'r ddarpariaeth yn cynnwys paratoi bwyd neu ddioddydd amser cinio, dylai'r gwasanaethau arlwyo a deietegol gael eu hysbysu am hyn ar y cam cynllunio a dylid ymgynghori â nhw o ran negeseuon cyson a chydymffurfiaeth â'r Rheoliadau.

Achosion brys, damweiniau a chymorth cyntaf

Dylai'r ddarpariaeth gael ei chefnogi gan asesiadau risg priodol, sy'n ystyried trefniadau wrth gefn priodol mewn argyfwng. Ceir rhagor o gymorth i nodi risgiau sy'n codi o'r ddarpariaeth hon yn **Atodiad B**. Dylai'r staff fod yn hollol ymwybodol o'r gweithdrefnau mewn argyfwng neu os bydd angen gwagio'r adeilad.

Dylai fod gan y ddarpariaeth aelodau o staff a enwyd sy'n gymwys i roi Cymorth Cyntaf. Dylai swyddog cymorth cyntaf cymwysedig fod yn bresennol yn y ddarpariaeth bob amser. Bydd angen i ysgolion a hybiau sicrhau bod trefniadau wrth gefn clir ar waith os na all y person dynodedig fod yn bresennol. Efallai y bydd angen hefyd nodi anghenion hyfforddiant o ran hyn. Dylai fod gweithdrefnau clir ar waith os bydd damwain.

Diogelu

Dylai pob aelod o'r staff fod yn hollol ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu y cytunwyd amynt sydd ar waith yn y lleoliad a dylent fod yn ymwybodol bod y canllawiau diogelu statudol, Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, yn parhau i fod yn gymwys. Dylai'r staff wisgo bathodynau adnabod oddi wrth eu hysgol arferol bob amser.

Efallai y bydd staff yn gweithio mewn adeilad newydd a/neu gyda phobl newydd a phlant nad ydynt yn eu hadnabod. Tra bydd pobl o asiantaethau a lleoliadau gwahanol yn gweithio gyda'i gilydd, mae'n bwysig bod pawb yn cael yr un wybodaeth ynglŷn â'r hyn y dylid ei wneud os ydynt yn poeni bod plentyn yn wynebu risg o gael ei niweidio, ei gam-drin neu ei esgeuluso. Bydd rhai ymarferwyr ar y safle wedi cael profiad o ymateb i bryderon ynghylch diogelu ond efallai y bydd rhai yn llai hyderus ynglŷn â sut i ymateb o dan y trefniadau gwaith newydd.

Dylai pob lleoliad benodi person diogelu dynodedig a dylai lleoliadau ddefnyddio'r poster a atodir (uchod) a'i arddangos mewn man amlwg fel y gall pawb yn y gwasanaeth neu'r adeilad fod yn glir pwy yw'r person diogelu dynodedig bob dydd. Yn amlwg, gall y person hwn newid os a phryd y bydd angen i bobl hunanynysu.

Mae diogelu plant yn faes busnes hollbwysig ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a bydd timau Argyfwng a thimau ar Ddyletswydd yn parhau i weithredu er mwyn derbyn galwadau am blant sy'n wynebu risg o gael eu niweidio, eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Ceir rhagor o wybodaeth yn [Rhannu gwybodaeth i ddiogelu pobl](#) / [Rhoi gwybod am blentyn sy'n wynebu risg](#)

Mae'r manylion cysylltu ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol awdurdodau lleol ar gael drwy wefannau'r Byrddau Diogelu:

Bwrdd Diogelu Plant Caerdydd a'r Fro

<https://www.cardiffandvalersb.co.uk/cy/plant/cysylltwch-a-ni/rhowch-wybod-am-bryderon/>

CYSUR/Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru

<https://www.cysur.cymru/cysylltiadau-a-dolenni-defnyddiol/rhoi-gwybod-am-bryderon-plant/>

Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf Morgannwg (gweler ochr dde'r dudalen)

<https://www.cwmtafmorgannwgsafeguardingboard.co.uk/Cy/ChildrenYoungPeople/ChildrenYoungPeople.aspx>

Bwrdd Diogelu Plant Gwent

<https://www.gwentsafeguarding.org.uk/cy/Children/Report/Report-a-child-at-risk.aspx>

Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (gweler gwaelod y dudalen)

<https://www.bwrddiogelugogleddcymru.cymru/gwybodaeth/>

Bwrdd Diogelu Plant Gorllewin Morgannwg (Bae'r Gorllewin)

<http://www.wbsb.co.uk/4476?lang=cy-gb>

Atodiad A: pob sy'n wynebu mwy o risg ô salwch difrifol o ganlyniad i COVID-19 neu bobl y bernir eu bod yn 'agored iawn i niwed'

Mae'r atodiad hwn yn nodi'r categorïau o bobl:

- sy'n wynebu mwy o risg o salwch difrifol o ganlyniad i COVID-19 ac a ddylai ddilyn y canllawiau ar ymbellhau cymdeithasol yn gaeth neu
- bobl y bernir eu bod yn 'agored iawn i niwed' ac a dylai gael eu gwarchod.

Ni ddylai fod disgwyl i bobl sydd yn y categorïau hyn weithio yn y ddarpariaeth hon.

Pobl sy'n wynebu mwy o risg o salwch difrifol o ganlyniad i COVID-19

Gweler ffynhonnell y canllawiau hyn [yma](#).

Mae'r grŵp hwn yn cynnwys y rhai:

- sy'n 70 oed neu'n hŷn (ni waeth pa gyflyrau meddygol sydd ganddynt)
- o dan 70 oed sydd â chyflwr iechyd sylfaenol a restrir isod (h.y. unrhyw un sy'n cael ei gyfarwyddo i gael pigiad y fflw fel oedolyn bob blwyddyn am resymau meddygol):
 - clefydau cronig (hirdymor) anadlol, megis [asthma](#), [clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint \(COPD\)](#), [emffysema](#) neu [fronçitis](#)
 - clefyd cronig y galon megis [methiant y galon](#)
 - [clefyd cronig yr arenau](#)
 - clefyd cronig yr afu, megis [hepatitis](#)
 - cyflyrau niwrolegol cronig, megis [clefyd Parkinson](#), [clefyd niwronau motor](#), [sglerosis ymledol \(MS\)](#), anabledd dysgu neu barlys yr ymennydd
 - Diabetes
 - problemau gyda'ch dueg - er enghraifft, [anemia'r crymangelloedd](#) neu os tynnwyd eich dueg
 - system imiwnedd wannach o ganlyniad i gyflyrau megis [HIV ac AIDS](#), neu feddyginiaethau megis [tabledi steroid](#) neu [gemotherapi](#)
 - bod dros bwysau yn ddifrifol (BMI o 40 neu uwch)
- merched sy'n feichiog

Pobl y bernir eu bod yn agored iawn i niwed

Gweler ffynhonnell y canllawiau hyn [yma](#).

Mae pobl yn y grŵp hwn yn cynnwys:

- Y rhai sydd wedi cael trawsblaniad organ solet

- Pobl â mathau penodol o ganser:
 - Pobl sydd â chanser sy'n mynd drwy gemotherapi gweithredol neu radiotherapi radical i drin canser yr ysgyfaint
 - Pobl sydd â chanser y gwaed neu fer yr esgym megis lewcmia, lyffoma neu fyloma ar unrhyw gam yn ystod eu triniaeth
 - Pobl sy'n cael imiwnotherapi neu driniaethau gwrthgyrff parhaus i drin canser
 - Pobl sy'n cael triniaethau wedi'u targedu eraill i drin canser a all effeithio ar y system imiwnedd, megis atalwyr cinasau proteinau neu atalwyr PARP
 - Pobl sydd wedi cael trawsblaniad môr yr esgym neu fón-gelloedd yn ystod y chwe mis diwethaf, neu sy'n dal i gymryd imiwnoatalyddion
- Pobl sydd â chyflyrau anadlu difrifol, gan gynnwys ffeibrosis systig; asthma difrifol a Chlefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (COPD) difrifol
- Pobl sydd â chlefyd difrifol sy'n effeithio ar un organ (e.e. yr afu, y galon, yr arenau, yr ymennydd).
- Pobl sydd â chlefydau prin a gwallau cynhenid mewn metabolaeth sy'n cynyddu'r risg o heintiau'n sylweddol (megis Diffyg Imiwnedd Cyfun Difrifol (SCID), clefyd y crymangelloedd mewn unigolion homosygaid).
- Pobl sy'n cael therapïau atal imiwnedd sy'n ddigon i gynyddu'r risg o heintio'n sylweddol.
- Pobl sy'n feichiog a phlant hyd at 18 oed sydd â chlefyd cynhenid arwyddocaol y galon neu sydd wedi datblygu clefyd arwyddocaol y galon.

Atodiad B: Aseu risgiau

Mae'r Atodiad hwn yn nodi nifer o risgiau a nodwyd i weithrediad hybiau drwy gydol pandemig Covid-19, ac yn rhoi rhai enghreifftiau o weithgarwch lliniaru posibl a champau gweithredu a nodwyd gan rai awdurdodau lleol. Ni fwriedir i hon fod yn rhestr hollgynhwysfawr o risgiau, ac ni fwriedir iddi ychwaith ddisodli asesiadau risg yr ysgol/hyb ei hun.

Risg	Disgrifiad	Gweithgarwch Lliniaru Posibl
Glanhau a Diheintio	Os na chaiff ardaloedd eu glanhau a'u diheintio'n rheolaidd, yna mae risg y bydd y feirws yn ymledu.	Dylid sicrhau bod trefniadau glanhau digonol ar waith – mae'r canllawiau presennol yn cyngori y dylid defnyddio cynhyrchion glanhau arferol. Dylid golchi dwylo ar ôl unrhyw weithgarwch glanhau. Os defnyddir cynhyrchion glanhau, dylid gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol (e.e. menig a ffedogau finyl neu nitril). Dylid gwisgo goglau os ydych yn arllwys cemegion lle mae risg y byddant yn tasgu yn y llygaid.
Cymorth Cyntaf	Sicrhau bod trefniadau ar waith i roi cymorth cyntaf a bod swyddogion cymorth cyntaf ar gael.	Dylid cadarnhau pa swyddogion cymorth cyntaf hyfforddedig neu bersonél mewn argyfwng sydd ar gael. Dylid sicrhau cyflenwadau llawn a'u monitro. Dylid llenwi ffurflenni damwain lle y bo'n ofynnol.
Cynnal a chadw adeiladau ac eiddo	Os na fydd gwaith archwilio, cynnal a chadw, gwasanaethu a phrofi rheolaidd ar adeiladau yn parhau yn ystod y cyfnod hwn, yna mae nifer o risgiau i iechyd a diogelwch plant a staff yn codi.	Dylid cynnal a chadw adeiladau. Dylid ynysu unrhyw ardaloedd sy'n risg gynyddol i blant. Dylid cloi pob drws gofynnol, gan gynnwys storfeydd cemegion/cynhyrchion glanhau, cypyrddau dosbarthu trydan ac ardaloedd risg uchel/ystafelloedd wedi'u hynysu. Dylid cydgysylltu â'r pennaeth/arweinydd sy'n gyfrifol am yr ysgol/hyb ynglyn â gwaith cynnal a chadw'r adeilad y tu allan er mwyn sicrhau gwahanu oddi wrth y plant a'r staff (e.e. torri glaswellt). Dylai pob contractwr fynd i'r dderbynfa cyn dechrau unrhyw waith.
Plant sydd â symptomau yn dod i	Os nad oes trefniadau ar waith i sicrhau nad yw plant â	Dylid gofyn i rieni wneud yn siŵr nad oes gan eu plant symptomau cyn dod. Dylid ystyried y canllawiau yn y ddogfen hon a chanllawiau

mewn i'r hyb	symptomau yn dod i mewn i'r hyb, yna mae risg y bydd y feirws yn ymledu i'r rhai sy'n mynychu.	ehangach, gan gynnwys Coronavirus (COVID-19): implementing social distancing in education and childcare settings a chanllawiau mwy cyffredinol ar ymbellhau cymdeithasol . Dylai pawb olchi eu dwylo ar ôl dod i mewn i'r adeilad.
Plant yn dechrau cael symptomau tra eu bod yn yr hyb	Os na chaiff trefniadau eu gwneud yn gyflym unwaith y bydd plentyn yn dechrau cael symptomau yn yr hyb, yna gallai hyn beri i'r feirws heintio pawb sy'n mynychu.	<p>Dylai cynlluniau priodol fod ar waith os bydd unrhyw un yn dechrau cael y symptomau COVID-19 uchod. Dylai'r canllawiau diweddaraf i sefydliadau addysgol gael eu dilyn bob amser.</p> <p>Dylai'r staff olchi eu dwylo'n drwyadl am 20 eiliad ar ôl unrhyw gysylltiad â rhywun sy'n sâl. Dylid sicrhau bod staff sy'n dechrau cael symptomau mewn hyb yn mynd adref ar unwaith ac yn dilyn y canllawiau cenedlaethol ar aros gartref ac ymbellhau cymdeithasol.</p> <p>Dylid sicrhau bod plant yng ngofal yr ysgol/hyb sy'n teimlo'n sâl neu sy'n dechrau cael symptomau COVID-19 o bosibl yn cael eu hynysu. Dylid dilyn y gweithdrefnau ar gyfer cysylltu â'u rhiant/gofalwr gan ddefnyddio'r rhifau cyswllt mewn argyfwng a ddarperir wrth gofrestru.</p> <p>Mae'n rhaid gwneud trefniadau i'r plentyn gael ei gasglu a'i gludo adref i'w hunanynysu.</p> <p>Dylid atgoffa rhieni i ddilyn y cyngor cenedlaethol cyfredol ar aros gartref https://llyw.cymru/aros-gartref-canllawiau-i-aelwydydd-coronafeirws-posibl</p> <p>Dylai'r plentyn gael ei wahardd o'r adeg honno a dilyn y canllawiau cenedlaethol.</p> <p>Mae'r canllawiau cenedlaethol cyfredol yn cynghori nad oes angen i aelod o'r staff sydd wedi helpu rhywun a aeth yn sâl gyda pheswch newydd parhaus neu dymheredd uchel fynd adref oni bai ei fod/bod yn datblygu symptomau eu hunain.</p>

		<p>Dylai'r staff olchi eu dwylo'n drwyadl am 20 eiliad ar ôl unrhyw gysylltiad â rhywun sy'n sâl.</p> <p>Dylid sicrhau bod aelodau o'r staff sy'n datblygu symptomau mewn hyb yn mynd adref ar unwaith ac yn dilyn canllawiau cenedlaethol ar aros gartref https://llyw.cymru/aros-gartref-canllawiau-i-aelwydydd-coronafeirws-posibl ac ymbellhau cymdeithasol https://gov.wales/coronavirus-social-distancing-guidance guidance.</p>
Trosglwyddo rhwng unigolion	Os na chymerir gofal i leihau effaith trosglwyddo rhwng unigolion a'r tebygolrwydd y bydd hynny'n digwydd, yna gallai'r feirws ymledu i eraill.	<p>Dylid cadw at arferion ymbellhau cymdeithasol bob amser. Dylid dilyn y canllawiau ar sut i wneud hyn. Coronavirus (COVID-19): implementing social distancing in education and childcare settings.</p> <p>Dylid atgyfnerthu mesurau hylendid cymdeithasol drwy gydol y dydd. Dylid golchi dwylo'n rheolaidd. Dylid rhoi grwpiau dosbarth ar wahân i'w gilydd, a threfnu i'r plant gael cinio, egwylion ac amser yn yr awyr agored ar adegau gwahanol. Wrth ymgymryd â gweithgareddau, gan gynnwys dysgu, chwarae a bwyta, dylid bob amser gadw pellter o 2 fetr.</p>
Dermatitis	Os yw'r staff yn golchi eu dwylo'n amlach, mae risg gynyddol o ddermatitis.	Dylid defnyddio eli lleithio o bryd i'w gilydd – i'w ddarparu gan staff at ddefnydd personol.
Diffyg hylif diheintio dwylo	Os nad oes digon o hylif diheintio dwylo yn yr hyb, yna, ni fydd modd cymryd llawer o'r camau lliniaru risg, ac mae hyn yn effeithio ar y posibilrwydd y bydd y feirws yn ymledu.	<p>Mae'n rhaid monitro cyflenwadau o hylif diheintio dwylo yn yr hyb yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod digon o gyflenwad bob amser. Dylid gwneud cais am gyflenwadau / ailstocio pan fydd cyflenwadau'n mynd yn isel, nid ar ôl iddynt ddod i ben.</p> <p>Os yw cyflenwadau o hylif diheintio dwylo wedi dod i ben, dylid sicrhau bod digon o sebon a dŵr rhedegog y gellir eu defnyddio yn lle hynny.</p>

		Dylid sicrhau bod cadachau glanhau dwylo ar gael i'w defnyddio yn niffyg popeth arall.
Gweithgareddau Chwarae	Os na fydd plant yn cadw at fesurau ymbellhau cymdeithasol neu hylendid wrth ymgymryd â gweithgareddau chwarae, yna gallai'r feirws ymledu ymhlith y plant.	Dylid osgoi offer chwarae sy'n gofyn am rannu mynych neu lefel uchel. Dylid trefnu amseroedd chwarae grwpiau dosbarth ar adegau gwahanol ac mewn ardaloedd gwahanol. Dylid glanhau a diheintio'n rheolaidd. Dim gweithgareddau na chwaraeon cyswllt. Dylid cadw at fesurau ymbellhau cymdeithasol hyd y gellir.
Lefelau goruchwyllo staff	Os na fydd lefelau goruchwyllo mor briodol â phosibl, yna mae hyn yn achosi nifer o risgiau i iechyd a diogelwch, a hefyd y risg y bydd y feirws yn ymledu.	Dylid sicrhau bod lefelau staffio yn briodol, hyd y gellir, a sicrhau diogelwch y plant ar yr un pryd. Rotâu Staff wrth gefn. Dylid ystyried hyfforddiant cymorth cyntaf y staff. Dylid adleoli staff ac mae angen bod yn hyblyg lle y bo modd.
Diogelu / Amddiffyn Plant	Asesu gofynion parhaus ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant.	Dylid cadw at weithdrefnau safonol. Trefniadau diogelwch priodol ar y safle. Dylai rotâu a lefelau staffio ystyried trefniadau diogelwch. Dylid sicrhau na chaniateir i blant adael yr hyb ar ddiwedd eu cyfnod yno ar eu pennau eu hunain. Dylai'r plant gael eu casglu un ar y tro gan y rhieni / gwarcheidwaid. Ni chaiff plentyn adael y cyfleuster oni chaiff ei gasglu gan oedolyn y cytunwyd arno. Dylid gweithredu derbynfa swyddogol er mwyn atal dieithriaid / ymwelwyr posibl rhag cael mynediad i'r hyb. Bydd angen gwiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar bob aelod o staff/gwirfoddolwr/goruchwylwr.
Ymddygiad gwael – Bwlio / Cam-drin geiriol neu gorfforol.	Ystyried effaith ymddygiad gwael, bwlio, neu gam-drin plentyn arall neu aelod o'r staff, a bod yn glir ynglyn â'r camau i'w cymryd mewn ymateb i hyn.	Dylai fod polisïau clir ar waith, a dylai'r holl staff, plant a rhieni fod yn ymwybodol ohonynt. Lefelau goruchwyllo digonol. Dylai'r staff fod yn gyfarwydd â'r plant lle y bo modd. Dylid ystyried lleoliad priodol plant o ran eu gofal, neu i ddiwallu eu hanghenion.
Codi a chario,	Ystyried trefniadau ar gyfer y	Ni ddylid codi na chario eitemau sy'n rhy drwm, lletchwith neu

<p>dodrefn, dosbarthiadau bwyd, offer chwaraeon ac ati.</p>	<p>staff yn yr hyb o ran codi a chario, er mwyn atal y risg o anaf.</p>	<p>anhylaw. Dylid gofyn am gymorth. Ni ddylid cario llwythi dros bellteroedd hir. Dylid defnyddio troliau ac ati. Os yw aelodau o'r staff neu wirfoddolwyr wedi cael hyfforddiant ar godi a chario, dylid defnyddio'r grŵp hwn o bobl i reoli'r llwythi yn y lle cyntaf. Dim ond os oes rhaid y dylid symud, codi neu gario rhywbeth. Cymerwch ofal nad oes unrhyw ymylon miniog na mannau lle y gellir dal y bysedd. Dylid gwisgo menig trwm a dim ond cario offer drwy gydio mewn dolenni ac ati.</p>
<p>Llithro, baglu a chwympo</p>	<p>Ystyried polisiau a gweithdrefnau i ymdrin â mân anafiadau i staff a phlant.</p>	<p>Dylid adolygu pob polisi cysylltiedig. Dylid archwilio unrhyw offer cyn ei ddefnyddio. Dylai'r staff wisgo esgidiau priodol. Dylai fod gweithdrefnau brys ar waith os caiff unrhyw beth ei golli neu ei ollwng. Dylai fod trefniadau glanhau ychwanegol ar gyfer ardaloedd sy'n cael eu cyffwrdd yn aml.</p>
<p>Meddyginiaeth bresgripsiwn</p>	<p>Os nad yw'r staff wedi cael eu paratoi i roi meddyginiaeth bresgripsiwn i blant yn ddiogel ac os nad ydynt yn ymwybodol o sut i wneud hynny, mae hyn yn achosi risgiau yn ychwanegol at y risgiau uniongyrchol i iechyd y plentyn.</p>	<p>Dylid glanhau a diheintio'n rheolaidd cyn ac ar ôl rhoi meddyginiaeth. Dylai'r staff o bob ysgol unigol gydgylltu â rhiant/gofalwr/plentyn er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau ar gael yn yr hyb.</p>
<p>Tân</p>	<p>Ystyried parodrwydd a gweithdrefnau o ran diogelwch tân</p>	<p>Dylid ynysu rhannau o'r adeilad nad ydynt yn cael eu defnyddio fel rhan o'r hybiau. Dylai pob aelod o'r staff a phob plentyn gael hyfforddiant sefydlu sy'n cwmpasu gweithdrefnau diogelwch tân. Dylid dynodi swyddogion tân a dylent fod ar ddyletswydd fel rhan o'r system rota. Dylid cynnal profion larwm tân fel arfer. Dylid adolygu a diwygio gweithdrefnau ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng.</p>
<p>Traffig ar y safle</p>	<p>Os na chaiff cerbydau sy'n dod i mewn i'r safle ac yn ei adael eu rheoli mewn ffordd sy'n cadw at</p>	<p>Bydd angen i bob lleoliad reoli hyn er mwyn diwallu anghenion unigol, a'i fonitro'n barhaus.</p>

	fesurau ymbellhau cymdeithasol, yna mae risg y bydd y feirws yn ymledu rhwng unigolion.	
--	--	--